Gwiriad Ffitrwydd Caffael KPMG

## Cefndir

Ym mis Mawrth 2012, comisiynodd y Gweinidog Cyllid adolygiad i 'Gwneud y Gorau o Bolisi Caffael Cymru'. Argymhellodd yr adolygiad hwnnw ailgyflwyno asesiadau medrusrwydd neu wiriadau ffitrwydd a chafwyd cadarnhad wedi hynny gan y Gweinidog y byddai hynny'n digwydd. Cefnogir hyn hefyd gan y Grŵp Arweinyddiaeth Gwasanaethau Cyhoeddus sy'n cael ei gadeirio gan y Gweinidog dros Lywodraeth Leol a Chymunedau.

Comisiynwyd KPMG i baratoi adroddiad Ffitrwydd ar yr holl Awdurdodau Lleol yng Nghymru.

Nod y gwaith hwn oedd penderfynu a oedd gallu digonol o ran caffael a galluogi sefydliadau hefyd i nodi eu cryfderau a'r meysydd hynny y gellid eu gwella. Mae'r asesiadau hyn yn cynnwys camau gweithredu o ran gwelliant sy'n cael eu cyflwyno i uwch reolwyr ym mhob Awdurdod Lleol gyda chopi i Gwerth Cymru.

Mae Gwerth Cymru yn bwriadu darparu cefnogaeth barhaus o ran gwelliant drwy'r cysyniad 'Gwasanaeth Datblygu Caffael'. Bydd y gefnogaeth hon yn gysylltiedig â themâu cenedlaethol o ran gwelliant a nodir drwy'r gwaith hwn mewn Awdurdodau Lleol ar draws Cymru. Y rhesymeg oedd asesu a oedd y gweithgareddau Caffael cyfredol yn addas i'r pwrpas o ran rheoli gwariant ac effeithlonrwydd Awdurdodau a'r modd yr oeddynt yn cydymffurfio gyda Deddfwriaeth.

Roedd angen cwblhau'r adroddiad hwn erbyn Rhagfyr 2013 a darparu Crynodeb ar gyfer y Gweinidog Cyllid yn Llywodraeth Cymru.

## Dull

Gwerth Cymru ddarparodd y Model Medrusrwydd ar gyfer Llywodraeth Cymru a ddefnyddiwyd gan KPMG i ddatblygu holiadur ar-lein i asesu medrusrwydd Awdurdodau Lleol yn erbyn y model hwn.

Gwahoddwyd pob awdurdod lleol i baratoi rhestr o staff y byddid yn gofyn iddynt gwblhau'r holiadur ar-lein yn gyfrinachol. Roedd y staff hyn yn ymwneud naill ai'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol â chaffael a bwriad y rhestr oedd rhoi sylw i weithgareddau caffael ar draws yr awdurdod.

Dadansoddodd KPMG yr ymatebion a pharatowyd asesiad cychwynnol ganddynt o fedrusrwydd yr awdurdod o ran caffael (yn seiliedig ar fodel aeddfedrwydd Llywodraeth Cymru). Rhoddwyd prawf wedyn ar yr asesiad hwn a'i gymedroli mewn cyfweliadau wyneb yn wyneb a gynhaliwyd yn yr awdurdod lleol gyda rheolwyr caffael allweddol a chydranddeiliaid ar draws yr awdurdod.

Cafodd canlyniadau'r dadansoddiad hwn a'r cyfweliadau hyn eu cyflwyno mewn adroddiad ynghyd â'r camau gweithredu a argymhellwyd gan KPMG ar gyfer gwelliant.

Mae'r camau gweithredu hyn o ran gwelliant yn cydnabod y gweithgareddau sydd eisoes ar y gweill ac sydd wedi eu cynllunio yn yr awdurdod a'r nod yw cefnogi'r gweithgareddau hynn a rhoi cyngor ymarferol i gefnogi'r gwelliannau.

## Casgliad

Mae'r Awdurdod wrthi'n datblygu Rhaglen Gwella Caffael i fynd i'r afael â'r argymhellion a'r gwelliannau.